

I: Penaethiaid sefydliadau addysg uwch

Cyfeirnod: W05/44HE
Dyddiad: 5 Awst 2005
Ymateber erbyn: Gweler isod
Gwybodaeth bellach: Alison Allan

CRONFA DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG 2005/06

Rwyf yn ysgrifennu atoch i roi gwybod i chi am y trefniadau ar gyfer y Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg ar gyfer 2005/06.

Eglurwyd y trefniadau ar gyfer y Gronfa Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg o 2003/04 i 2005/06 yng Nghylchlythyr W03/69HE. Roedd y rhain yn cynnwys dyraniadau creiddiol i Brifysgol Cymru, Aberystwyth; Prifysgol Cymru, Bangor; Coleg y Drindod Caerfyrddin; ac Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd (APCC). Rhoddwyd rhan o'r gronfa o'r neilltu i alluogi sefydliadau, ar wahân i PC Aberystwyth, PC Bangor a Choleg y Drindod, i wneud ceisiadau am gyllid datblygu drwy'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg. Mae cyfran o'r Gronfa ar gael hefyd i'w dyrannu ar sail y cynnydd mewn cofrestriadau CALI yn erbyn man cychwyn 2001/02: trosglwyddir unrhyw arian sydd heb gael ei ddyrannu i gyllideb raglen y Ganolfan ar gyfer prosiectau a gweithgareddau a fydd yn fuddiol i'r sector cyfan.

Mae'r Gronfa ar gyfer 2005/06 wedi cael ei chynyddu o lefel 2004/05 yn unol â'r cynnydd cyffredinol mewn dyraniadau i gyllido addysgu ac mae cyfanswm o £318,280 ar gael. Mae'r gwahanol elfennau o fewn y Gronfa wedi cael eu cynyddu pro-rata. Rhoddir manylion y dyraniadau ar gyfer 2005/06 yn Atodiad A.

Bydd Alison Allan yn cysylltu â PC Aberystwyth, PC Bangor, Coleg y Drindod ac APCC yn unigol i drafod trefniadau ar gyfer adrodd ar gynnydd yn 2004/05 a rholio eu cynlluniau ymlaen, fel sylfaen ar gyfer rhyddhau dyraniadau 2005/06. Yn ogystal â gofyn am gyflwyno adroddiadau cynnydd a chynlluniau gwariant erbyn 30 Tachwedd, bydd Alison a Dr Ioan Matthews (Cyfarwyddwr, Canolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg) yn trefnu i ymweld â'r sefydliadau dan sylw cyn y dyddiad hwn er mwyn trafod cynnydd a chynlluniau ar gyfer 2005/06.

Bydd Dr Matthews yn ysgrifennu at y sefydliadau canlynol i egluro'r trefniadau ar gyfer gwneud ceisiadau am gyllid o'r Gronfa drwy'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg:

Prifysgol Morgannwg
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan
Prifysgol Cymru Abertawe
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd
Prifysgol Cymru, Casnewydd
Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru
Athrofa Addysg Uwch Abertawe
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru.

Disgywlir mai 18 Tachwedd 2005 bydd y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Phil Gummert', with a long horizontal stroke extending to the right.

PHILIP GUMMETT

**DARPARIAETH CYFRWNG CYMRAEG
COFRESTRIDAU 2001/02 i 2003/04**

Sefydliad	CALloedd Cyfrwng Cymraeg 2001/02*	CALloedd Cyfrwng Cymraeg 2002/03	Newid yn erbyn man cychwyn 2001/02	CALloedd Cyfrwng Cymraeg 2003/04	Newid yn erbyn man cychwyn 2001/02	Newid yn erbyn 2002/03	CALI sy'n gymwys ar gyfer taliadau ychwanegol 2005/06	CALI cyflawn
Prifysgol Cymru, Aberystwyth	207.72	207.23	-0.49	223.63	15.91	16.40	15.91	16
Prifysgol Cymru, Bangor	438.07	369.24	-68.83	407.93	-30.14	38.69		
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	262.14	231.24	-30.90	233.01	-29.13	1.77		
Prifysgol Morgannwg	2.90	0.00	-2.90	2.34	-0.56	2.34		
Prifysgol Caerdydd	10.31	8.96	-1.35	3.69	-6.62	-5.27		
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan	8.46	2.42	-6.04	15.04	6.58	12.62		
Prifysgol Cymru Abertawe	2.17	8.75	6.58	16.00	13.83	7.25		
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	55.33	75.77	20.44	91.27	35.94	15.50		
Prifysgol Cymru, Casnewydd	19.02	28.33	9.31	26.49	7.47	-1.84		
Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru	1.50	0.10	-1.40	0.00	-1.50	-0.10		
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru	2.56	2.76	0.20	4.37	1.81	1.61		
Cyfanswm ar gyfer sefydliadau sy'n cyflwyno cynigion i'r Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg	102.25	127.09	24.84	159.20	56.95	32.11	32.11	32
Cyfanswm	1010.18	934.80	-75.38	1,023.77	13.59	88.97	48.02	48

* (newidiwyd adeg yr Ymgynghoriad, Cylchlythyr W03/30HE)

**CRONFA DARPARIAETH CYFRWNG GYMRAEG
DYRANIADAU 2005/06**

	Cronfa Greiddiol	Cofrestriadau Ychwanegol (CALI)	Dyraniad Ychwanegol am Gofrestriadau (£400 pob CALI)	Cyfanswm y Dyraniad
	£		£	£
Prifysgol Cymru, Aberystwyth	45,823	16	6,624	52,447
Prifysgol Cymru, Bangor	100,812		0	100,812
Coleg y Drindod, Caerfyrddin	65,552		0	65,552
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd	12,731		0	12,731
Canolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg (a)	50,925	32	13,248	64,173
Is-gyfanswm	275,843		19,872	295,715
Dyraniad ychwanegol i Gyllideb Rhaglenni: Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg				22,565
			Cyfanswm	318,280

(a) Bydd y sefydliadau a ganlyn yn gymwys i wneud cais am yr arian hwn drwy'r
Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg

Prifysgol Morgannwg
Prifysgol Caerdydd
Prifysgol Cymru, Llanbedr Pont Steffan
Prifysgol Cymru Abertawe
Athrofa Prifysgol Cymru, Caerdydd

Prifysgol Cymru, Casnewydd
Athrofa Addysg Uwch Gogledd Ddwyrain Cymru
Athrofa Addysg Uwch Abertawe
Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru